# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CŶD

**Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd 9 Medi 2011**
**Galeri, Caernarfon**

**Yn Bresennol:** **Cyngor Gwynedd**
Cyng Trefor Edwards
Cyng OP Huws
Cyng Arwel Pierce
Cyng John Wyn Williams
Cyng Owain Williams

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng WJ Chorlton – Chair
Cyng Hywel Eifion Jones
Cyng Clive McGregor
Cyng Eric Roberts

**Swyddogion**
Gareth Jones, Environmental Service Manager
Nia Haf Davies (NHD), JPPU Manager
Bob Thomas, Team Leader, JPPU
Sasha Davies (SD), Cyngor Sir Ynys Môn
Sioned Williams (SW) – Cyngor Gwynedd

**Ymddiheuriadau:** Cyng Lewis Davies – Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng Kenneth Hughes – Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng W Gareth Roberts – Cyngor Gwynedd

---

## 1. YMDDIHEURIADAU

Nodwyd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim

## 3. MATERION BRYS

Dim

4. **COFNODION**

Derbyn y cofnodion blaenorol fel rhai cywir.

5. **RHAGLEN GWAITH UPCC – Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd**

Diweddariad gan rheolwr yr uned NHD

- **Cytundeb Cyflawni**
  - Mynd o flaen Cyngor Llawn Môn mis Medi a Chyngor Llawn Gwynedd ym mis Hydref. Cam nesa i'w ei gyflwyno i Llywodraeth Cymru (LIC).

- **Cofrestr Safleoedd Posib**
  - Ymgynhoriad ar methodoleg yn mynd ymlaen tan 15 Medi 2011.
  - Agor y cofrestr yn mis Hydref – fydd llythyrau yn cael eu gyrru i mudiadau a unigolion ar basdata CDLl a rhestr Safleoedd Posib Môn, yn rhoi eglurhad ar y broses ac yn gofyn am cynnigion tir. Cysylltu â darparwyr Isadeiledd am anghenion tir.
  - Cadarnhau fydd Aeloedau a Cynghorau Cymuned yn cael eu ymgynghori.

- **Adroddiad Sgopio AC/AAS**
  - Ymgynghoriad wedi dod i ben 8 Medi 2011. Grŵp Tasg Cynaldwyedd wedi cyfarfod ar yr 8 Medi 2011. Fe fyddem yn asesu'r sylwadau a dderbyniwyd ac yn adrodd yn ôl maes o law.

- **Anghenion Cyflogaeth**
  - Scott Wilson yn darparu adroddiad ar Tir Cyflogaeth. Disgwyl adroddiad interim, erbyn diwedd mis Medi a'r adroddiad terfynol erbyn diwedd mis Hydref.

- **Anghenion Tai (y ddwy ardal)**
  - Papur ar faterion fydd yn dylanwadu i roi arweiniad i lefelau twf. Ffigyrau tai ddim ar gael hyd yn hyn ar Wylfa B. Angen mwy o gydweithio rhwng Cynllunio ac Economaidd i greu twf economaidd. Angen datrys broblem pobl ifanc yn gadael yr ardal.

- **Tai Gwag**
  - Angen ffigyrau Tai Gwag ac eu cysidro yn yr adroddiad. Mae Môn wedi penodi Swyddog Tai Gwag. Gyrrwyd holiadur allan i drigolion Môn yn cynnig cymorth i lenwi'r tai gwag.

- **Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau Twf**
  - Yn barod wedi cylchu papur ar y prif faterion i'w ystyried a beth fuasai'r weledigaeth ac amcanion. Fe fydd diweddariad ar papur yma yn y cyfarfod nesaf.

- **Astudiaeth Capasiti Trefol**
    - Gwaith maes ar gyfer prif ganolfannau Ynys Môn wrthi cymryd lle angen ei gwblhau a cynnal asesiad mewnol o potensial rhai safleoedd.

- **Astudiaeth Capasiti Ynni Adnewyddol**
    - Swyddogion yn casglu gwybodaeth yn unol ar fethodoleg gan y Cynulliad.

- **Papurau Testun**
    - Gwaith yn mynd ymlaen ar diweddaru prif papurau testun yn ymwneud efo Poblogaeth A Thai, Cyflogaeth, Manwerthu a Twristiaeth.

- **Methodoleg effaith Iaith Gymraeg**
    - Wrthi yn trafod hefo swyddogion priodol o fewn y ddau Gyngor ar gyfer datblygu methodoleg briodol.

**<u>Materion a Godwyd</u>**

- Yn flaenorol yn Ynys Môn cafodd yr aelodau gyfle i wneud sylwadau ar y tiroedd gafodd ei gynnig yn y gofrestr. A fydd yna gyfle yn y broses newydd.
- Sut fath o waith sydd yn cymeryd lle ar y papur anghenion tai.
- Angen cadw pobl ifanc yn yr ardal a cael gwell cydweithrediad rhwng cynllunio a datblygu economaidd efo prosiectau sydd yn dod a budd economaidd i'r ardal.
- Pwysigrwydd Tai Gwag wrth ystyried anghenion tai i'r dyfodol.

**<u>Ymateb Swyddogion</u>**

- Methodoleg y gofrestr ymgeisio safleoedd yn dangos y meini prawf fodd bynnag mae Aelodau y ffynhonnell defnyddiol ac fe fydd cyfle i roi mewnbwn i'r broses.
- Papur anghenion tai yn ystyried materion megis rhagolygon y Cynulliad, Cytundeb gogledd Cymru, tueddiadau adeiladu tai, dylanwadau economaidd, capasiti o fewn ardal gan gynnwys effaith ieithyddol. Ystyried opsiynau ffigyrau twf a trafod rhain efo rhan ddalwyr.
- Materion economaidd yn ystyriaeth berthnasol wrth ddelio efo ceisiadau. Canllaw Cynllunio Atodol ar y gweill ar berthynas gwaith rhwng Economaidd a Cynllunio, angen ffurfioli'r berthynas.

## 6. PROSIECTAU A RHAGLENNI DATBYLGU'R ECONOMI MÔN A GWYNEDD

**Ynys Ynni**

Cyflwynodd SD rhaglen yn amlinellu cyd destun Ynys Ynni:

- DU angen gwariant cyfalaf o £200bn mewn ynni
- Erbyn 2020 defnydd DU o ynni adnewyddadwy 37% a DU niwclear 26%
- Ymwelodd Gweinidog Gwladol dros Egni â Ynys Môn
- Gweledigaeth y Rhaglen i sefydlu Ynys Môn fel canolfan o fri fyd enwog mewn Ymchwil a Datblygu, Cynhyrchu a Gwasanaethu Ynni Carbon Isel Cynaliadwy

- Sector preifat gyda diddordeb yn yr ardal.  Prosiectau eraill yn cynnwys cwmnïau gyda diddordeb mewn datblygiadau yng Ngogledd yr Ynys, Môr Iwerddon a datblygiadau micro gynhyrchu
- Ynys Môn yn bresennol ar 55% GVA
- Ynys Ynni yn bwysig i Isranbarth a Gogledd Cymru.  Mae Ynys Ynni yn edrych ar holl rhaglenni ynni
- Pwyntio allan y potensial economaidd i Ynys Môn a Gogledd Cymru ar ran cyflogaeth
- Datblygu Fframwaith Etifeddiaeth Ynys Ynni –lle rydym eisiau bod erbyn 2025
- Gwaith Tîm Ynys Ynni gyda cysylltiadau â Gwynedd
- Gweithio yn agos gyda sector breifat
- Cydlynu llawr o'r gwaith
- Creu swyddi newydd i bobl ifanc Môn
- Cydweithio yn mynd ymlaen ar nifer o grŵpiau rhaglen gwaith
    - Grŵp Grid
    - Addysg a sgiliau – i sicrhau cyfleon i bobl lleol
    - Cadwyn Cyflenwi – LlC yn arwain
    - Iechyd – Iaith a Diwydiant
    - Cyfathrebu
    - Bwrdd Ynys Ynni yn cael ei gadeirio gan Tim Stone
    - Fforwm Strategol – Sioned Williams (Gwynedd) yn aelod
    - Graff yn dangos tyfiant yn yr economi drwy effaith Ynys Ynni
    - Trefnu polisïau Interim, gwelliant ffyrdd a threfi.
    - Christian Branch (CSYM) yn adnodd ychwanegol ac yn creu prif linc i'r UPCC
    - Sefydlu cyd weithio rhwng Rhaglen Ynys Ynni  a Uned Polisi Cynllunio ar y Cŷd i ddatblygu polisïau cadarn i ddelio â'r tyfiant

- Buddsoddiad o £8bn mewn datblygu Wylfa B hyn yn cymharu efo'r prosiect Olympaidd yn Llundain
- Manteision a cyfleon   unigryw i sicrhau fod ein economi lleol yn ffynnu.
- Angen sicrhau cysylltiad cryf efo Polisi Cynllunio i sicrhau fod polisïau priodol mewn lle ar gyfer cael y budd gorau allan o ddatblygiadau megis Wylfa B.
- Y bwriad yw creu CPC efo Horizon ar gyfer cael adnoddau ychwanegol i ddelio efo'r ceisiadau. Bydd hyn yn briodol i ddatblygiadau eraill mawr yn yr ardal hefyd. Cyfle i UPCC gael adnoddau o rhain.
- Gweithio yn agos efo cymunedau ar yr Ynys ar gyfer sicrhau buddiannau cymdeithasol.

**<u>Materion a Godwyd</u>**

- Teimlo fod yna fylchau o fewn rhai polisïau megis ynni adnewyddol ac yn benodol tyrbinau gwynt. Ymwybodol o problemau yn Powys. Ddim yn glir os yw'r polisïau yn cefnogi clystyrau yntau un neu ddau yma ac acw.
- Codwyd pwynt ynghylch â Egni Llanw yn yr Afon Fenai fel ffynhonnell o bŵer.
- Faint o sicrwydd sydd yna y bydd Wylfa yn mynd yn ei flaen.

- Modd delio efo datblygiadau ynni adnewyddol mawr yn iawn y cynlluniau bach sydd yn creu problemau.

**<u>Ymateb Swyddogion</u>**

- Barn yr Adran Cynllunio yw mae'r ffordd orau i ddelio hefo anghenion Wylfa yw trwy gael CDLl mewn lle mor fuan a phosib.
- Gwaith ar gyfer creu Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer Tyrbinau Gwynt yn cymeryd lle ar hyn o bryd.
- Mae gwaith ymchwil ar gyfer yr Afon Fenai wedi bod ond oherwydd amgylchedd y Fenai dim diddordeb yn ddiweddar.
- Roedd cyhoeddiad o Polisi Cenedlaethol Prydain yn gam mawr ymlaen. Penderfyniad cynllunio yn gorwedd gyda'r 'IPC' yn Llundain ac yn disgwyl fydd y cais yn cael ei chyflwyno erbyn diwedd 2013 ac ymgynghoriad cyhoeddus erbyn 2014. Datganiad o ymgynghoriad cyhoeddus gan Horizon yn mynd o flaen Bwrdd y Comisiynwyr mis Hydref a disgwyl fydd y dogfen llawn ar gael erbyn mis Tachwedd.
- Gwaith ar capasiti ynni adnewyddol yr ardal i dderbyn datblygiadau a fydd yn sail tystiolaeth i unrhyw Canllaw Cynllunio Atodol yn y maes yma.

**Blaenoriaethau Economaidd Gwynedd**

Cyflwyniad gan SW (Economaidd Gwynedd)

- Gan amlaf ddim geiraf polisiau cynllunio yw'r broblem o ochr datblygu economaidd ond yn hytrach dehongliad o'r polisi yw'r gwrthdrawiad mwyaf.
- Tri prosiect blaenoriaeth i Gwynedd dros y tair mlynedd nesaf yw:
    - Gwynedd Werdd a'r Sector Carbon Isel
        - Holl bwysig cydweithio gyda cymdogion
        - Sut i greu cymunedau fwy hunan gynhaliol
        - Lleihau trafnidiaeth
        - Cyfleon economaidd, bwyd yn lleol
        - Canolbwyntio ar ynni am y tair mlynedd nesaf
        - Prosiect defnyddio llanw Pen Llyn, ond heb unrhyw fantais i'r ardal. Beth sydd yn bwysig yw ystyried sut i gael budd economaidd lleol
        - Cyfleon sylweddol gyda Wylfa
        - Swyddog o Wynedd yn rhan o'r cyfarfodydd Môn
    - Ynni Adnewyddol a Ynni Carbon Isel
        - Canllawiau gan llywodraeth ynni i'r cymunedau lleol
        - Canolbwyntio ar prosiectau bychan
        - Cyfleon mawr am ddatblgiadau Hydro yn yr ardal, datblygiad Llanberis yn esiampl
        - Cyflwyno system ynni adnewyddol i adeiladau cyhoeddus
        - Edrych ar cyfleon tyfu cnydau ar gyfer ffactrïoedd biomas yn yr ardal

        - Creu panel i ffurfio cynllun ar gyfer prosiectau yn y dyfodol
        - Cydweithio â Economaidd Môn er mwyn budd i'r ardal gyfan.

  - Gwynedd Ddigidol
        - Edrych ar ardaloedd heb Band Eang, Gwynedd yw'r ardal waethaf ar gyfer mynediad i'r band eang o ardaloedd difreintiedig
        - Angen uwchraddio'r rhwydwaith i osgoi problemau
        - Angen sicrhau fod datblygiadau newydd yn cynnwys seilwaith priodol ar gyfer band eang i'r dyfodol

- Datblygiadau'r Sector Feddygol, Gwyddoniaeth ac Uwch Dechnoleg
  - Penderfyniad i ganolbwyntio ar un maes gwaith
  - Cynllun ar y Cŷd yn effeithio'r ddwy ochor
  - Trafod safle ar Parc Menai ar gyfer sefydlu canolfan ymchwil fydd yn creu 50 o swyddi erbyn dechrau 2012
  - Angen denu  buddsoddiad – cwmnïoedd cenedlaethol i leoli yn yr ardal
  - Trafodaethau ynglŷn a Ysgol Feddygol fuasai fudd mawr – cytundeb gyda'r Brifysgol yn Gaerdydd

**<u>Materion a Godwyd</u>**

- Teimlo fod gwrthdaro rhwng polisïau cenedlaethol a datblygu economaidd sut y gellid symud hyn ymlaen yn y broses CDLI.
- Angen edrych ar beth yr ydym yn ei adnabod fel Stad Diwydiannol dyddiau yma a pa ddefnyddiau sydd yn briodol ynddynt.
- Problem cael busnesau lawr i Meirionydd, y rhwydwaith ffyrdd ddim yn ei denu nhw.
- Angen ystyried cyfleodd dŵr yng Ngwynedd, llawer o egni mewn afonydd trwy'r Sir.
- Cefnogol iawn i'r swyddi newydd yn y canolfan ymchwil beth yw'r cefndir i hyn.

**<u>Ymateb Swyddogion</u>**

- Angen sicrhau fod Economaidd yn rhan o'r broses ymgynghori o'r dechrau ac eu mewnbwn yn hanfodol.
- Gwaith ar Anghenion Cyflogaeth yn edrych asesu dynodiadau presennol ac anghenion i'r dyfodol a bydd cyfle i asesu rôl stadau diwydiannol yn y Cynllun newydd.
- Gwaith sgopio capasiti o fewn yr ardal fydd yn dangos faint o botensial datblygiadau hydro sydd yn yr ardal.
- Partneriaeth yw'r swyddi rhwng Betsi Cadwaladr y Brifysgol ac Ysbyty Gwynedd. Fe fydd y Brifysgol yn cyflogi Swyddi Prifysgol Bangor. Y gobaith yw denu cwmnïau fel partneriaeth.

## 7. UNRHYW FATER ARALL

Dim